



YR ANGOR

PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI
A MANCEINION

'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 38. RHIF 9

CHWEFROR 2017

50c

BLAS NADOLIG 2016



Cantorion Bethel yn Oedfa'r Carolau



Anne M. Jones, R. Ifor Griffith a Margaret Anwyl Williams yn oedfa y Carolau



*Lluniau:
Dr. John G. Williams*

Tri o aelodau Cantorion Bethel, Brigitta, Gareth a Siân Hartley. Mae Brigitta a Gareth yn y Dosbarth Dysgwyr Cymraeg



Dr. D. B. Rees a Huw Griffith, y ddau yn byw o fewn canllath i'w gilydd yn Allerton



Gofalu am y lluniaeth (Nan, Wena a Beryl)

YN Y RHIFYN HWN:

Undeb Gorawl Cymry Lerpwl yn cofio Nansi Pugh. Beth yw Gwerth Bywyd? Newyddion o Bethel, Cymdeithas Cymry Lerpwl, Bethania, Cymry Birkenhead a Cymry Manceinion. Tudalen y Dysgwyr. Cymanfa Ganu Glannau Merswy.



Golygyddol

Diolch i dîm Yr Angor gan D. Ben Rees

Diolch yw'r gair ar fy ngwefusau wrth baratoi rhifyn llawn hanesion Chwefror 2017.

• Diolch i'r **Trysorydd**, Roderick Owen am gludo'r *Angor* o Benllyn a gofalu am y cyllid ac i Ben Hughes, yr **Ysgrifennydd** am anfon yr *Angor* trwy'r post, a hynny yn brydlon. Haedda'r ddau wrogaeth.

• I'r **Cadeirydd**, Dr. John G. Williams am lywio ein cyfarfyddiadau ac am baratoi lluniau gwych o rifyn i rifyn. Y mae Elwyn Evans a Terry O'Neill ar yr un trywydd.

• I'r **gohebwyrr**: Mrs Beryl Williams, Mrs Eirwen Sergeant, Miss Iris Hughes Jones, Mrs Anne Hunt, Parchedig Eleri Edwards, Mrs Nan Hughes Parry.

• I'r **Pwyllgor Gwaith**: o Benbedw, Mrs Mair Rees Jones,

Mrs Olwen Jones, o Fanceinion: Mrs Anne Hunt, Elwyn ac Eflwyn Evans, Parchg. Eleri Edwards ac o Lerpwl: Dr. John G. Williams, Roderick Owen, Ben Hughes a Ken Williams.

• I'r **colofnwyr**: Dr. Pat Williams a Dr. Lowri Williams, Ken Williams a Mike Farnworth.


I'r **llythyrrwyr**: prin yw'r rhain yn anffodus. Rhowch eich meddyliau a'r syniadau, eich beirniadaeth a'ch diolch mewn brawddegau! David Williams yw'r gorau o ddigon!

• I'r **cysodwr**: Aeron Jones a'r **dosbarthwyr** o gymuned i gymuned. Diolch i un a **ymddeolodd** yn ystod 2016: Elwyn Parry, Caerffili. Bu y Myfyrdodau yn werthfawr. Diolch iddo amdanynt.

COFIO YR ATHRO IWAN LEWIS JONES

Brawychwyd y gymuned Gymraeg a'r meddygol yn Lerpwl wedi clywed am farwolaeth sydyn ac annisgwyl yr Athro Iwan Lewis Jones. Bu farw yn ei gartref yn Nolgellau ac yntau ond yn 67 oed. Bu'n gyfrifol, gyda eraill yn yr wythdegau, am sefydlu Canolfan Ffrwythloni Hewitt yn Lerpwl. Roedd yr Uned yn helpu merched a dynion oedd yn anffrwythlon i gael plant. Dywedodd ei frawd, Dr. Huw Lewis Jones, yn ei araith ddiwrnod yr angladd fod mwy na'r disgwyl o fabanod wedi eu henwi yn 'Iwan' yn Lerpwl. Y rheswm am hyn oedd gwerthfawrogiad y 'cleifion' am ei gymorth yn ystod amser torcalonnus yn eu bywydau. Roedd yn athro ysbrydoledig ac yn ddyd garedig mewn llawer ffordd. Coffa da amdano.

J.G.W.



SIEC I 'AUTISTIC INITIATIVES'

Gweler Brian Thomas, Mossley Hill yn cyflwyno siec am £450, sef hanner yr elw o Gystadleuaeth Golff Cymry Lerpwl 2016, i'r mudiad 'Autistic Initiatives' ac i Mr. William Vitalis, pennaeth tŷ y mudiad ardderchog yma yn Lerpwl sy'n gofalu am sawl person ifanc gyda awtism. Mae'r arian am gael ei ddefnyddio i ddatblygu un o'r ystafelloedd yn y tŷ fel ystafell y synhwyrau (sensory room). Mae hanner arall yr arian a gasglwyd wedi ei drosglwyddo i Bwyllgor Etifeddiaeth Glannau Mersi ar gyfer Gŵyl Hedd Wyn a gynhelir ym Medi 2017.

(Gweler **Cronfa Hedd Wyn**, tudalen 12)

Diolch i bawb am eu haelioni i'r achosion da yma.



William Vitalis a Brian Thomas

CORNEL Y TRYSORYDD Chwefror 2017



Dr Arwel Roberts, Aughton.....	£20.00
Mrs Nan Hughes Parry, Woolton.....	£25.00
Mrs Devida Broadbent, Roby.....	£10.00
Mr John Thomas, Allerton.....	£20.00
Mrs Olwen Jones, Allerton.....	£20.00
Mr a Mrs Selwyn Jones, Penmynydd.....	£25.00
Mr Eryl Wynne Jones, Woolton.....	£20.00
Dr. a Mrs Arthur Thomas, Mossley Hill.....	£20.00
Mrs Mona Bowen, Aberystwyth.....	£25.00
Mrs Gwen Jones, Allerton.....	£20.00
Mrs Gwenfyl Hayness, Cemaes.....	£12.00
Mr a Mrs Clifford Owen, Llanfairfechan.....	£25.00
Mr a Mrs William Smith, Maghull.....	£20.00
Cyngor Llyfrau Cymru.....	£50.00
Parch a Mrs Gwyndaf Richards, Llwydiarth.....	£20.00
Mr a Mrs Dewi Evans, Y Bala.....	£10.00

Cyfanswm **£332.00**
Roderick Owen (Trysorydd)

Beth yw gwerth bywyd? *gan Ken Williams*

Cefais lawer o bleser ddarllen yn *Yr Angor* ddigwyddiadau ym mywyd Gareth Pritchard a Brian Thomas o'i flaen. Rhaid fod eu profiadau hwy wedi cyffwrdd â'm cof gan peri i mi olrhain yr hyn ddigwyddodd braidd ar ddechrau fy ngyrfa gyda'r Llywodraeth Leol yn Lerpwl a hynny yn 1950.

Gofynnwyd imi ymweld â stryd yn ardal Everton, nepell o hen gapel hardd y Bedyddwyr lle bu Rowley Pritchard, Ted Humphreys Jones a Owen Parry yn flaenoriaid gweithgar. Y cwyn oedd fod llawer o'r trigolion a'r droeon yn methu cael digon o ddŵr hyd yn oed i lenwi tegell; y bobl a siaradais â hwy yn cytuno fod y bai ar y person neu'r personau oedd yn byw mewn un tŷ yn arbennig; ond roedd neb yn barod i siarad â hwy! Dyma beth oedd dechrau da!

Rhaid dweud yma, fod y drefn i wneud ac i gludo dŵr i dai mewn hen ardal fel Everton, yn hollol wahanol i'r sustem a geir heddiw. Roedd llawer ohonynt ar yr un bibell, ac felly os oedd twll bychan yn y bibell i'r dŵr i redeg i ffwrdd, roedd pawb yn gorfod dioddef.

Curais wrth ddrws ffrynt y tŷ, a enwyd gan bawb, a daeth gwraig i sefyll o fy mlaen. Cyflwynais fy hun iddi a dweud y rheswm am fy mhresenoldeb. Ar yr un eiliad agorodd y drws, daeth y drawdod ofnadwy i'm cyfarch. Yn naturiol, nid oedd am i mi gymryd yr un cam dros y trothwy. Eglurais yn dyner wrthi fod yr hawl gennyf ac i mewn a fi.

Hanner y ffordd gorfodwyd imi droi yn ôl; roedd y drawdod yn llethol. Allan ar y stryd, cymerais anadl ddofn a rhedeg drwy'r gegin allan i'r iard yn y cefn a'r wraig yn fy nilyn. Hyd yn oed yn y brys, sylwais yn y gegin fod yna ddyn yn eistedd wrth ymyl y tân, a bandiau brwnt yn clymu ei ddwy goes. Allan yn yr iard, dywedodd mai ei brawd oedd, a'i fod yn sâl. Dyna'r cwbl. Sylwais hefyd fod y bibell ddŵr yn gollwng, a chefais ar ddeall mai rhentu y tŷ oeddynt, ac felly y perchen oedd yn gyfrifol i'w hatgyweirio.

Yn y stryd wedi gorffen ar fy ngwaith yno, dywedais wrthi fy mod yn gofiodog am ei brawd, ac yn fy marn i, roeddwn yn siwr fod 'gangrene' arno. Cefais orchymyn pendant, nid oeddwn i i siarad â neb na chysylltu a'r un meddyg, ac yn pwysleisio wrth ei ddweud. Rhaid imi gyfaddef fy mod wedi meddwl yn ddoeth beth oedd orau i wneud. Penderfynais yn y diwedd i ddod o hyd i'r meddyg teuluol siarad ag ef a gadael y cwbl yn ei law. A hyn wnes.

Anfonwyd llythyr swyddogol i'r perchennog i gario allan y gwaith, a rhoddi saith diwrnod iddo i'w gwblhau. Hyn yn ôl y ddeddf. Mewn llai nag wythnos felly, rhaid oedd ail ymweld â'r stryd, yn fwyaf i egluro i'r bobl beth roeddwn wedi ei wneud. Yn gyntaf oll curais wrth ddrws ffrynt y tŷ lle roedd y brawd a'r chwaer yn byw, ond ni chefais ateb. Rhaid bod y wraig drws nesaf wedi fy nghlywed, a dyma yr hyn a ddywedodd. Yn ystod y prynhawn y bum yno gyntaf, rhaid fod y

meddyg wedi galw i'r tŷ, a bod y dyn wedi ei gludo i'r ysbyty yn ddiymdroi. Mewn diwrnod roedd wedi marw. Dau niwrnod wedyn ddaeth yr ambiwlans i'r un tŷ i gludo ei chwaer i'r ysbyty, a fod hithau hefyd wedi marw o'r afiechyd oedd arni hi.

Y digwyddiad hwn oedd yr un peth mwyaf dychrynlyd ddaeth i'm rhan. Yn anffodus, bu llawer tebyg, i wneud â unigolion yn unig. Hyn yn gwneud i mi feddwl, sut roedd pobl yn medru byw yn eu budreddi, a chael bywoliaeth mor dda – hyd nes iddynt gael eu symud i ysbyty neu fannau i'w glanhau, ac yna yn darfod byw. Gan imi gael fy nwyn i fyny fel plentyn yn y dau a'r tridegau, roeddwn yn gwybod beth oedd tlodi yn y modd eithafol, ond ni welais yr un sefyllfa yn debyg i'r rhain hyn yng Nghwm Gwnedraeth.

Nid oedd yr un ohonom oedd yn gweithio ar y pryd i wneud a chlirio tai mewn ardaloedd arbennig (slum clearance) – yn edrych ymlaen i'r haf i ddod. Hwn oedd tymor y chwain a'r lleuen wely. Wrth lwc, roedd y lluen wely yn ystod y dydd yn cysgu yn dawel ar ôl bwydo dros nos. Am y chwain, roeddynt yn cael y cyfle gorau i chwarae a blino y glân.

Ar un wal o'r swyddfa yn Lerpwl roedd arno siart yn dangos enwau bob un ohonom, ac wrth ochr bob enw gwelwyd y nifer o chwain ddaliwyd arnom y dydd cynt. Y 'buddugwr' – 72; a hyn, wedi iddo drafaelau adref ar y bws!

UNDEB GORAWL CYMRU LERPWL
(Noddwr: Syr Karl Jenkins, OBE)

**Y NEUADD FAWR,
THE CORNERSTONE,
LIVERPOOL HOPE UNIVERSITY
L6 1HP.**

**Sadwrn, Mawrth 4, 2017
am 7.30 o'r gloch.**


**Arweinydd: Keith Orrell.
Cyfeilydd: Stephen Hargreaves.**

**Ticedi £12.50) ar werth gan Mavis Owens
(Ffôn: 0151 652 6374) neu e-bost:
mavis@lwcw.freeseve.co.uk**

**Ewch i'r wefan: www.lwcw.co.uk
Noson ddynamig arall**

CYNGERDD GILBERT & SULLIVAN'S

**PIRATES OF
PENZANCE**



Newyddion o

LANNAU MERSI A MANCEINION

Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Y mae'r hen gapel yn edrych yn hardd ac yn fuan iawn bydd pobl yn byw o fewn y muriau a glywodd Air y Bywyd am genedlaethau. Cynhaliwyd Oedfa Undebol ar ddechrau mis Rhagfyr (yr ail Sul) a gweinyddiwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd i bobl Bethel a Bethania. Dyma gyfle da i ddod at ein gilydd. Trefnodd Mrs Elin Jones Ginio Nadolig yng ngwesty Frenhinol Waterloo, a methodd tri o'r selogion a dod. Cofiwyd am Mrs Marian Lyons a fu o dan driniaeth ar ei gwefus yn Ysbyty St. Helens a bu Mrs Meinwen Rees o dan archwiliadau. Ond da gweld eraill a fu yn gaethiwus wedi dod ynghyd, yn arbennig Mrs Menna Edwards a Miss Dorothy Williams, ein aelod hynaf, a'r ddwy yn byw yn Blundellsands. Byddwn yn ymuno gyda'n cyfeillion o Eglwys Crist ar fore Sul, 8 Ionawr o dan arweiniad ein Gweinidog y Parchedig Ddr. D. Ben Rees i gymryd rhan yn y defosiwn a daw adroddiad yn ein adroddiad nesaf. Llwyddwyd i lenwi ein pulpud ac edrychwn ymlaen i flwyddyn fendithiol arall.

Cymdeithas Cymry Lerpwl

Ar y dydd Mawrth cyntaf yn Nhachwedd cafwyd cyfarfod yn y prynhawn a chawsom ein tywys o amgylch Cadeirlan Anglicanaidd Lerpwl gan un o dywyswyr y Gadeirlan sef Helen Roberts. Y peth cyntaf a welsom oedd ffenestr y Lleygwyr. Mae hon wrth ymyl y brif fynedfa i'r Gadeirlan sef y Drws Gorllewinol. Mae'r ffenestr yn dangos y rhai a fu yn gyfrifol am sefydlu, a'r rhai oedd yn gyfrifol am adeiladu, y Gadeirlan. Gwelsom hefyd rai o'r offer



Dr. J. G. Williams, Wil Aaron a Carys

gwreiddiol a ddefnyddiwyd yn yr adeiladau. Mae'r ffenestr hefyd yn cynnwys llun o Giles Gilbert Scott, pensaer y Gadeirlan. Ar waelod y ffenestr fe ysgrifennwyd - 'Remember with thanksgiving all those whose diversity of talents and unity of purpose built the cathedral to God's glory'. Gwelsom wedyn ffenestr yr Emynwyr ac yn eu plith fe gofir am William Williams, Pantycelyn. Wrth gerdded drwy'r eglwys fe dynnwyd ein sylw at nifer o bethau diddorol e.e. carreg goffa Giles Scott sydd yng nghanol llawr rhan ganolog y Gadeirlan. Mae'r organ yna un o'r mwyaf yn y byd gyda thros 10,000 o bibellau ac fe ellir ei chwarae mewn sawl safle. Buom i weld Capel Cofio y Rhyfel. Yn y capel yma mae cloch y llong 'HMS Liverpool' sydd yn ein hatgoffa o ran bwysig dinas Lerpwl yn yr Ail Ryfel Byd.

Amlinellodd Helen y cysylltiadau Cymreig eraill sydd yn y Gadeirlan sef ffenestr Santes Non yng Nghapel Mair (Lady Chapel) a ffenestr i Dewi Sant a Sant Cadoc sydd y tu ôl i'r allor. Capel Mair oedd y rhan gyntaf o'r Eglwys a adeiladwyd ac fe orffenwyd y gwaith yn 1910. Dinistrwyd y ffenestri lliw yno gan fomiau yn 1940. Gwelsom garreg goffa Syr Robert Jones, Cymro, llawfeddyg ac arloeswr arbennig ar sut i drin afiechydon yr esgryn. Cawsom gyfle i edmygu y sgrin tu ôl i'r allor. Mae'r sgrin wedi ei gwneud allan o dywodfaen (sandstone) a dail aur (gold leaf). Ar waelod y sgrin mae cerflun o'r Swper Olaf ond nid oes ond un disgybl ar ddeg wrth y bwrdd. Mae sawl golygfa o fywyd Iesu Grist wedi eu cerfio ar y sgrin. Gwelsom hefyd beth o waith Cefin Burgess sydd wedi cael ei wneud i'r Gadeirlan. I orffen y prynhawn cawsom baned a dê a theisen cyn mynd adref – prynhawn diddorol a diolch i Alun Davies am ei drefnu.

Ar Dachwedd 8fed daeth Wil Aaron atom. Testun ei ddarlith oedd 'Poeri i lygaid yr eliffant' sef hanes Mormoniaid o Gymru a aeth i America o 1847-1869. Pam oedd y pobl yma yn mynd yr holl ffordd (pedair mil a hanner o filltiroedd)? Roedd y daith dros fôr, ar draws y paith a thros fynyddoedd yn un galed ac roedd llawer yn marw ar y ffordd. Roedd yn cymeryd naw mis o borthladd Lerpwl i gyrraedd Dinas Llyn Halen, Utah. Ffrwyth cenhadon y Mormoniaid o America a ddaeth i Gymru oedd y rhai a aeth – roedd symylrwydd y grefydd yn apelio atynt sef yr egwyddor 'gwnewch fel y dywed yr Hen Destament'. Roeddynt yn wynebu llawer o ragfarnau

**Yr Is-lywydd yn anrhydeddu yr
Ysgrifennydd yn y Cinio**



ying Nghymru ac ni dderbyniwyd rhai o'u syniadau crefyddol e.e. amlwreiciaeth. Soniodd Wil Aaron am rai o'r Mormoniaid a adawodd Gymru.

- Daeth rai ohonynt yn bobl bwysig ym mywyd Utah fel John Benyon, mab tenant stâd Penarlâg. Fe enwir hyd heddiw nifer o adeiladau a strydoedd ar ei ôl.
- Collodd Thomas Giles, gŵr o Dredegar ei olwg yn y pwll glo. 'Roedd yn hoff o gerddoriaeth ac yn 1852 prynodd delyn. Cafodd daith annodd iawn i Ddinas Llyn Halen – bu rhaid iddo dynnu ei drol ar hyd y daith. Mae ei delyn, sef telyn deires Gymreig, yn yr amgueddfa yno.
- Roedd Martha Hughes yn feddyg arloesol - hi oedd y drydydd ferch i raddio mewn meddygaeth yn Utah a'r ferch gyntaf i fod yn Seneddwr talaith yn America. Roedd Martha mewn briodas amlwreiciaeth – hi oedd y bedwaredd wraig i'w gŵr ac fe gafodd ef ddwy wraig wedyn! Roedd Martha yn hoff iawn o gadw dyddiadur. Roedd hi'n grediniol ei bod yn byw fel y mynnai Duw iddi hi wneud, ac eto mae hi'n mynegi ei hanfodlonrwydd am ddyfodiad y ddwy wraig ar ei hôl. Credai fod ei phriodas erbyn hynny yn dirywio.
- Elias Morys – a aeth o Lanfairtalhaiarn i fod yn beiriannydd a phensaer llwyddiannus. Ef a roddodd y gorchymyn am y gyflafan pan lofruddiwyd 120 o bobl gan y Mormoniaid yn Mountain Meadow. Mae'r digwyddiad yma yn staen ar gymdeithas y Mormoniaid ac maent yn dal i deimlo cywilydd am yr achlysur.

Gobeithio fod llawer ohonom wedi cael y llyfr 'Poeri i lygaid yr eliffant' yn anrheg Nadolig ac wedi mwynhau ei ddarllen.

Yr wythnos ganlynol cawsom noson gerddorol yng nghwmni 'Merched y Gelli' sef Cadi, Lois ac Erin o Glanrafon, sydd rhwng y Bala a Chorwen. Daeth Nia Morgan o'r Bala i gyfeilio iddynt a'u rhieni oedd y 'chauffeurs'. Cawsom noson amrywiol yn cynnwys unawdau, cerdd dant a chaneuon gwerin gyda chyflwyniadau unigryw rhwng pob eitem. Rydym yn dymuno bob llwyddiant i'r dair yn y dyfodol – maent yn cystadlu mewn llawer o eisteddfodau lleol a chenedlaethol. Diolch am eu cyfraniad i'n rhaglen eleni.

Ar nos Fawrth 28ain Tachwedd bu rhaid newid y rhaglen ar fyr rybudd.



Devida Broadbent



Tîm buddugol: Ar eu traed: Carys Jones, Norma Owen, Dr. J. G. Williams, W. Meirion Evans, Eirlys Evans, Wena Evans a Dr. D. B. Rees a'r cwisfeistres, Devida

Cafwyd noson bleserus yn edrych ar dri fideo yng nghofal Roderick Owen – fideo o'r Gymanfa olaf a gynhaliwyd yn yr hên Bethel ym Mehefin 2008, gwasanaeth dinesig 2008 a chinio Gŵyl Ddewi yng Ngwesty'r Adephi. Huw Edwards oedd y gŵr gwadd. Daeth y lluniau a llawer iawn o atgofion i bawb.

Ar y nos Fawrth olaf o Dachwedd cafwyd y cwis blynyddol yng ngofal Devida. Roedd tri tîm yn cystadlu a'r tîm buddugol am y drydydd flwyddyn yn olynol oedd tîm y Parch. Ddr. D. Ben Rees. Diolch i Devida am ei gwaith yn

paratoi y cwestiynau ac am y gwobrau ac i'r tri tîm am gystadlu.

Yn nechrau Rhagfyr mwynhawyd cinio Nadolig yng ngwesty'r Alicia ym Mharc Sefton. Cafwyd noson braf a diolch i Norma am drefnu y cyfan.

I orffen y rhan yma o dymor y Gymdeithas cafwyd noson 'Naws y Nadolig' yng nghartref Kath a John Norton. Roedd digon i'w fwyta a digon o siarad. Cafwyd cyfle i ganu carolau i ddathlu'r Nadolig.

Blwyddyn Newydd Dda i ddarllenwyr 'Yr Angor'.



Naws y Nadolig 2016 yn Woolton



Un o fyrddau y Cinio ym Mharc Sefton, gwesty Alicia

EGLWYS BETHEL, HEATHFIELD ROAD, LERPWL

Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd. Bu llawer o weithgarwch yn ystod y ddau fis diwethaf yn Y Gymdeithas Lenyddol, dathlu'r Adfent a'r Nadolig ei hun.

Yn yr oedfa fore Sul, Tachwedd 13 etholwyd blaenoriaid newydd o dan arolygiaeth y Parchedigion Eleri Edwards, D. Ben Rees a Mrs Betty Morris. Diolch i Mr. Roderick Owen a Mr. Meirion Evans am dderbyn y swydd bwysig hon. Byddant yn gaffaeliad mawr i waith yr Eglwys, ac eisioes ysgwydda'r ddau y cyfrifoldebau.

Ar y nos Lun ddilynol cafwyd noson eithriadol o ddifyr yn y gymdeithas Lenyddol, ar y testun "Mae yn fy Meddiant" yng nghwmni Nerys Vaughan Jones, Devida Broadbent, Eryl Wyn Jones a Ben Hughes.

Ym meddiant Nerys roedd dau gopi o'r *Ffynnon*, Papur Bro Eifionydd ac yn rhifyn Chwefror 2015 roedd darlun o'i mam yn dair oed. Gŵr o Lanystumdwy wrth glirio tŷ ei fam ddaeth ar draws *Trysorfa'r Plant*, Hydref 1911 a theitl ei ysgrif oedd 'Darganfod Trysor'. Apeliodd am wybodaeth o lun yr eneth fach. Yn y rhifyn dilynol o'r *Ffynnon* daeth ateb i'r cwestiwn gan Nerys ei hun ac eraill o'r ardal. Roedd yn drysorfa o wybodaeth am wraig arbennig iawn a ranodd ei thalentau cerddorol er llês ei chymuned a thu hwnt, gan ddysgu'r plant i chwarae piano, canu, adrodd ac actio. Roedd ganddi gôr plant, côr merched a bu llwyddiant iddynt mewn Eisteddfodau. Bu yn gyfeilyddes ddawnus yn nhalgylch Llŷn ac Eifionydd ac yn organyddes yn ei chapel yn Fourcrosses am dros hanner can mlynedd ac yn flaenores weithgar. Dangoswyd amryw o luniau ohoni ar y sgrin. Mae'r bennill a ymddangosodd yn y *Trysorfa'r Plant* gan Ceridwen Peris wedi bod yn gysur mawr i'w mam ac i Nerys a'r teulu.

O na allwn garu'r Iesu

Medd Rhiannon fach gan wenu

Rhoi fy hun yn gwbl iddo

Meddai yn y capel heno.

Geiriau geneth dair a hanner

Oedd y tlws llinellau tyner

Boed blynddoedd gwynion iddi

Caffed rês i garu'r Iesu.

A dyma dystiolaeth Nerys i'w mam.

'Bu fyw yn caru'r Iesu ar hyd ei hoes'.

Sgwrs am ei theulu gafwyd gan Devida hefyd. Llongwr oedd ei thaid yn hwylio ar y llong *North Wales* o Hull i Ganada. Suddwyd y llong ar y 26 o Hydref 1916 gan long danfor yr Almaenwyr yng ngheunant y Brenin Arthur. Collwyd 30 o fywydau yn cynnwys Capten Gruffudd Owen o Forfa Nefyn.

Darllenodd lythyr olaf ei thaid cyn iddo hwylio am y tro olaf, a medal a

thystysgrif anfonwyd i'r teulu. Roedd hon yn cael ei alw yn 'Dead Man's Penny' gan yr edrych fel ceiniog.

Roedd taid a nain Devida yn byw yn 5 Woodbine Street, Kirkdale. Ganwyd dwy eneth iddynt, bu farw y cyntafanedig yn bedwar mis oed a'r ail o fewn wythnosau. Roedd ym meddiant Devida ran o'r ffrog fedydd wnaed gan ei nain. Roedd nam ar ei golwg ac eisteddai i wno o dan y bwrdd. Symudodd yn ôl i fyw i Nefyn pan oedd yn disgwyl mam Devida ond bu farw chwech wythnos ar ôl rhoi genedigaeth iddi. Felly yn drist iawn ar ôl yr holl ymdrech i wneud ffrog fedydd ni wisgwyd mohoni erioed.

Roedd mam Devida yn amddifad a bu raid i'w thaid gael caniatâd i'w dwyn i fyny a dangoswyd i ni y dystysgrif honno yn rhoddi'r hawl iddo i'w magu nes y byddai yn unarhugain oed.

Ac yn olaf dangosodd geiniog dyddiedig 1788 Sior y 3ydd ac ar y cefn pen derwydd, ac ar ochr y geiniog 'on demand in London, Liverpool and Anglesey'. Ymchwiliodd Devida ar y we am hanes y geiniog – gwnaethpwyd hi yng ngwaith copr Mynydd Parys, Môn.

Hanes bywyd ei dad Emllyn Hughes o Forfa Nefyn gafwyd gan Ben Hughes. Roedd yn gweithio fel saer coed ar longau masnach – neu 'chippy' fel ei gelwid y pryd hynny. Ar ddechrau yr ail ryfel byd ym Medi 1939 roedd yn hwylio o Lerpwl i Ffrog Newydd ac yn ystod y fordaith fe suddwyd y llong ar y ffordd adref i Brydain dros gefnfor yr Iwerydd. Bu ei dad yn y môr am ddwy awr cyn cael ei achub. Byddai y cychod tanddwr yn anelu i'w dinistrio a digwyddodd hyn ddwywaith iddo.



Nan H. Parry

Ar derfyn y rhyfel derbyniodd ei dad bump o fedalau am ei gyfraniad a rhain oedd ym meddiant y mab Ben, ac yn rhyfeddol falch ohonynt – medal *Seren 1939-45*, hon am wasanaeth sylfaenol i'r ail ryfel byd, *Seren yr Iwerydd*, am eu gyffraniad yn dod â chynnyrch a nwyddau ac arfau i Brydain. Yna yn 1940-43 *Seren Africa* ac yna *Seren Burma* am ei wasanaeth yn y Dwyrain Pell ac yna y fedal olaf *Medal Rhyfel 1939-45*. Ar hon mae pen Sior VI, ac ar y cefn pen llew yn goresgyn draig.

Ac yn olaf Eryl Wyn Jones, yn sôn am ddyddiau cynnes ei yrfa fel athro ifanc o Gorwen yn derbyn swydd mewn gwlad estron, sef yn Valencia yn Venezela, De Amerig. Hon yn ysgol newydd sbon i blant y gweithwyr Americanaidd yn y ffatrioedd.

Trysor mwyaf ei fywyd oedd arwain y plant i gyhoeddi llyfr yn flynyddol i'w rheini am weithgareddau'r ysgol. Daeth â dwy gyfrol clawr caled i ddangos i ni, dipyn o ryfeddod. Trysor arall iddo oedd cael mynd am wyliau drwy'r wlad i weld yr holl anifeiliaid gwyllt a'r adar lliwgar fyddai yn hofran o gwmpas. Dro arall cael cyfle i ddringo'r mynyddoedd i weld yr Andes a gweld am y tro cyntaf yr aderyn mawr y Condor yn hedfan.

Cafodd y cyfle i fynd i'r India i weld y Triongl Aur a dinasoedd Dehi, Agra a Jaipur a'r pinacl oedd y Taj Mahal. Dro arall cafodd wyliau yn Thailand, ac roedd ei bryder am leihad yr eliffantod yn y wlad yn amlwg.

Ei drysor olaf oedd cael mynd i'r Wladfa a mwynhau crwydro o gwmpas y Wladfa Gymreig. Cafodd sgwrs yn Sbaeneg hefo Elan Jones yn ei chymell i ddawnsio'r tango hefo fo. Mi fydd yn werth gwylio 'Strictly Come Dancing' ar y BBC y flwyddyn nesaf.

Cafwyd noson ddiddorol arall ar Dachwedd 28 yng nghwmni'r Dysgwyr Cymraeg. Maent yn gwmni mor frwdfrydig yn eu hymdrechion i ddysgu'r iaith, ac hyd yn oed i deithio i Nant Gwrtheyrn am hyfforddiant ychwanegol. Mae dau grŵp ohonynt ac mae'r rhai mwyaf rhugl o dan ofal Mike Farnworth a Sian Hartley yn helpu'r dosbarth cychwynol. Maent yn dilyn y llyfr *Ffenestri* gan Lois Arnold (Gwasg Gomer).

Cyflwynodd pawb eu hunin gan ddweud pam maent am ddysgu'r Gymraeg. Cafwyd eitemau o ddarlenn, o ganu cerdd doniol am gêm rygbi o Drama fer. Cafwyd llawer o hwyl a chwerthin yn eu cwmni a chyfle i gael sgwrs uwch paned o dê. Diolch i'n

gweinidog am ysgogi a hyrwyddo y dosbarth, a chyd lywio'r noson yng nghwmni Mike Farnworth.

Yna eto o dan nawdd y Gymdeithas Lenyddol ar y 12fed o Ragfyr noson 'Ar Drothwy'r Nadolig' gan Nan H. Parry. Hon yn noson fendigedig. Diolch am y danteithion Nadoligaidd.

Cafwyd oedfa'r Nadolig ar y Sul 18fed o Ragfyr gan Gantorion Bethel o dan arweiniad Mr. Ifor Griffith gyda Margaret Anwyl Williams yn cyfeilio a'n gweinidog Dr. Ben Rees yn cyflwyno'r

carolau. Arbrawf llwyddiannus iawn oedd y canu plygain gan Anne Jones, Ifor Griffith a Margaret A. Williams, 'melys moes mwy'. Braf oedd cael cymdeithasu yn y ganolfan ar derfyn yr oedfa i fwynhau lluniaeth ysgafn a phaned o goffi blasus.

Ar ddydd y Nadolig cafwyd gwasanaeth o ddarlenniadau Beiblaidd a charolau o dan arweiniad Dr. Pat Williams a braf oedd cael gweld a chlywed plant yn yr oedfa a diolch i Dr. John Williams am ei sgwrs hefo nhw.

Braf oedd gweld Ann Roberts wedi gallu ymuno â ni. Braf clywed hefyd bod David Morris (Kirby) wedi dychwelyd o'r Ysbyty cyn y Nadolig, ac anfonwn ein cofion at Mrs Olwen Jones sydd yn yr Ysbyty Frenhinol. Cofion anwylaf atynt ar drothwy y flwyddyn newydd.

Daeth llawenydd a thristwch i'n rhan yn ystod y flwyddyn ac mae llawer o'n haelodau mewn gwendid ac yn gaeth i'w cartrefi. Anfonwn ein cofion atoch oll a gweddiwn am arweiniad a ninnau wedi croesi'r flwyddyn newydd sef 2017.

CYMDEITHAS CYMRY BIRKENHEAD

Gwilym Bowen Rees ar "*Hen Faledi*" oedd ein gwestai ar Hydef 31ain. Un o Fethel, Arfon yw Gwilym ac wedi ei eni a'i addysgu yng Ngwynedd. Caneuon gwerin, hen faledi, a cherddoriaeth gyfoes yw ei ddiddordeb a'i bleser. Gwneud clocsiau yw ei grefft a'i alwedigaeth a gwelir yn ei weithdy ar ystad y Faenol.

Clywsom gerddi yn cynnwys geiriau gan Iolo Morgannwg, Dic Lewis, Twm o'r Nant yn niwedd y ddeunawfed ganrif, Jac Glan y Gors a phenillion gan faledwyr di-enw. Mewn rhaglen o dros awr, mewn llais cryf, soniarus canodd Gwilym ddeuddeg o faledi yn ymestyn o ffermydd Llŷn ac Eifionydd, lle roedd gweision yn rhoi llais i'w cwynion a'u pleserau a hynny drwy lysoedd Saesneg a'u rhagfarn tua'r Cymry. Stori carwriaeth Llywelyn Fawr, Siwan a William de Breos, golwg ar ystrydebau parchus oes Victoria, hyd at ei gyfansoddiadau ei hun am hanes ei deulu, a'i gyfieithiadau o'r Saesneg a Gwyddeleg.

Diddorol oedd nodi naws gwahanol y cerddi – rhai yn llawn dychan am yr awdurdodau a'r cyfoethog, rhai yn chwerau am anghyfiawnder, rhai yn hiraethus a thrist, eraill yn glyfar a doniol dros ben ac un yn llawn ysbrydion – fel y disgwylir ar y noson hon! Wrth ddiolch i Gwilym, mynegodd Terry O'Neill ein mwynhad pur am noson unigryw gyda chyfaill gwybodus, swynol a chartrefol, un yn amlwg yn cael a rhoi pleser arbennig wrth ganu. Llywydd y noson oedd Menna Kearney, a Terry oedd ein cyfeilydd y tro hwn.

Mae'r Parchedig Dr Huw John Hughes, Sir Fôn, bron yn haeddu dod yn aelod anrhydeddus o'n Cymdeithas gan iddo ddod atom i ddarlithio deg gwaith dros y blynyddoedd. Pleser arbennig oedd ei groesawu ar Tachwedd 14eg i siarad am "*Hanes cynnar yr Ysgol Sul a'i Llenyddiaeth*". Ac yn ôl ei arfer rhoddodd inni noson rhagorol gyda'i ddysgeidiaeth, a'i hiwmor.

Ganwyd ef yn Llandegai. Bu'n athro a phrifathro, yn ddarlithydd ac yn weinidog, yn awdur ac yn naturiaethwr. Hawdd, gweld a gwerthfawrogi ei ddiddordebau a'i wybodaeth o'r fath feusydd eang. Roedd yn fraint cael treulio noson yn gwranddo arno.

I'r ysgolion Sul cynnar mae'n cenedl yn ddyledus am ddechrau addysg i blant Cymraeg. Arweiniodd Dr Hughes ni o ddyddiau Thomas Gouge a ddymunai i blant Cymru ddysgu Saesneg er mwyn iddynt ddarllen llyfrau defosiynol, drwy ddyddiau S.P.C.K., eto bron yr hollol Saesneg, hyd at Gruffydd Jones, Llanddowror yn 1708 a sefydlodd yr ysgolion cylchynol i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Pan farwodd yn 1771 mae'n ymddangos fod bron hanner poblogaeth Cymru wedi derbyn rhywfaint o addysg ac erbyn diwedd y ganrif, Cymru oedd un o'r ychydig wledydd yn Ewrop gyda mwyafrif llythrennog.

Ond sefydliadau eglwysig oedd rhain i gyd ac i blant capel 'roedd dysgu'r *catechism* yn, golygu fawr ddim. Dyna pryd yn 1783 daeth Thomas Charles i'r Bala, gŵr blaenllaw yn myd Methodistiaeth Cymru. Ei fwriad oedd llenwi'r bwch a gododd

wedi dirywiad ysgolion Griffith Jones. Un o Gaerfyrddin ydoedd yn wreiddiol, ordeiniwyd ef yn offeriad gyda'r Eglwys Anglicanaidd, ond nid roedd ei ddull drosbarthiadau yn dderbyniol, ac ymunodd â'r Methodistiaid Cymraeg. Am ei waith yn yr ysgolion Sul, daeth yn arwr i werin Cymru. Roedd ei gymeriad hoffus ac anwyl yn denu plant ac oedolion i'w drosbarthiadau a chafodd lwyddiant ysgubol ac effaith unigryw ar grefydd, ac addysg ei ddisgyblion a gwnaeth gyfraniad anghymarol at iaith mewn cyfnod anodd dan lywodraeth Lloegr.

'Roedd edmygedd ein darlithydd o'i destun yn amlwg, a phleser o'r mwyaf oedd i ni ddeall a gwerthfawrogi cyfaniad un o arwyr ein gwlad i'n treftadaeth.

Gwnaed y diolchiadau gan y Barch Glens Wilkinson. Terry O'Neil oedd ein cyfeilydd, a Mair Rees Jones oedd llywydd y noson.

 "*Teulu Brenhinol Cymru yn ein Llên*" oedd pwnc y Prifardd Ieuan Wyn o Fethesda, ar nos Lun Tachwedd 28. Yn ystod ei blentynod arferai grwydro a physgota yn, a thros y Carneddi i Abergwyngregyn, ardal na wyddai ddim amdani ar y pryd, ond a ddaeth o ddiddordeb mawr iddo. Dyma man lle oedd canolfan tywysogion Gwynedd, yn eu mysg y ddau Llywelyn enwog. Cawsom wers hanesyddol a ieithogol wrth ddeall cefndir geiriau cyfarwydd. Yn llys Aber oedd cartref tywysogion Gwynedd yn y C13, amser cyffrous oherwydd ymdrechion brenhinoedd Lloegr i feddiannu tir Cymru. Pan oedd llys Aber yn ei gryfder, diddorol oedd dysgu am yr holl swyddfeydd oedd yn angenrheidiol i waith y llys, a'r swyddogion i gadw trefn ar y wlad.

Yn dilyn blynyddoedd o ymrafael, brwydro, colli ac ennill tir, creu a thorri cytundebau rhwng y tywysogion a gwahanol frenhinoedd Lloegr, ac er i Llywelyn (y llyw olaf) lwyddo i ennill ac i ddal rhannau helaeth o Gymru, ac i dalu teyrnged i Edward cyntaf, byddin y brenin a drechodd a lladdwyd Llywelyn yn 1282. Dechreuodd y brenin adeiladu ei gestyll i orchfygu'r Cymry. Lladdwyd etifeddion y tywysogion a gyrrwyd Gwenllian i leiandy yn Lloegr er mwyn sicrhau na fyddai byth neb i hawlio'r deyrnas.

Diolchodd Tom Thomas, West Kirby i Ieuan am noson arbennig iawn. Da oedd cael dysgu mwy o'n hanes gan feistr ar ei destun. Eira Wyn oedd llywydd y noson, a Terry oedd y cyfeilydd.

Daeth diwedd yr hanner cyntaf o'r tymor ar Ragfyr 12fed gyda'n cyfarfod Nadolig a drefnwyd eleni gan Anne Jones, Mair Rees Jones, Iola Edwards a Terry O'Neill. Cawsom noson hyfryd a meddylgar i ddathlu'r Wyl arbennig hon gyda darlenniadau a charolau tymhorol. Cymerwyd rhan gan Eunice, Phyllis, Kitty, Trefor ac Arwel, Eirwen oedd llywydd y noson ac arweinydd y cyfarfod. Terry O'Neill oedd y cyfeilydd a Llwynwen a gynigiodd ein diolchiadau.

Dyma raglen llawn a thri o wŷr Gwynedd wedi ein diddanu. Daeth dau o Bethesda a'r cyffiniau a'r llall o Borthaethwy. Edmygw'n eu cyfraniad.

TUDALEN Y DYSGWYR

gan Dr. Pat a Lowri Williams

Many people enjoy reading magazines and there are many available in Welsh for readers of every age. Read the passage below and answer the questions which follow. You don't have to understand every word.

Cennad

Cylchgrawn y Gymdeithas Feddygol oedd hwn a gyhoeddwyd gyntaf yn 1980. Ers 2003 mae ar gael ar ffurf ddigidol. Mae'n cynnwys erthyglau ar feddygaeth glinigol a chyffredin.

Cip

Cylchgrawn lliwgar *Yr Urdd* i blant 7-11 oed yw *Cip*. Yr hen enw arno oedd *Cymru'r Plant* a sefydlwyd yn 1892 ond yn 1987 newidwyd y teitl i *Cip*. Mae'n cynnwys cystadlaethau, posau, cartwnau, straeon, jôcs, llythyrau, posteri ac ati.

Golwg

Cylchgrawn sy'n cynnwys newyddion a materion cyfoes yw *Golwg*. Mae ynddo hefyd straeon, portreadau, erthyglau gan golofnwyr dadleuol a gwybodaeth am y celfyddydau a chwaraeon. Mae hefyd ar gael ar ffurf ddigidol – *ap Golwg*. Hwn yw'r "cylchgrawn app." cyntaf yn yr iaith Gymraeg.

Iaw

Cylchgrawn yw hwn ar gyfer disgyblion yn yr ysgol uwchradd, sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith. Mae'n cynnwys erthyglau ar ddiwylliant poblogaidd Cymru a phynciau sydd o ddiddordeb i bobl ifanc. Mae hefyd yn cynnwys cyfraniadau oddi wrth y disgyblion eu hunain fel llythyrau neu broiectau ysgol.

Lingo Newydd

Cylchgrawn yw hwn ar gyfer pobl o bob lefel sy'n dysgu Cymraeg. Mae'n cynnwys straeon ac erthyglau am natur, bwyd, ffasiwn, materion cyfoes a phortreadau. Mae'r cynnwys mewn glas ar gyfer dechreuwyr, mewn gwyrdd ar gyfer y rhai sy'n gwybod ychydig mwy ac mewn coch ar gyfer y goreuon.

Yr Angor

Papur Bro Cymry Glannau Mersi a Manceinion. Ceir hanes am y capeli a'r cymdeithasau lleol yn ogystal â phortreadau o bobl ddiddorol ac erthyglau ar bynciau cyfoes ac hanesyddol. Ceir hefyd dudalen ar gyfer y dysgwyr.

Geirfa

ac ati	etc.
cyfraniad, -au (m)	contribution
cylchgrawn, -gronau (m)	magazine, journal
cystadleuaeth, -laethau (f)	competition
dadleuol	controversial
darlledu	broadcasting
digidol	digital
erthygl, -au (f)	article
golofnwr, -wyr (< colofnwr)(m)	columnist
gyhoeddwyd (< cyhoeddi = to publish)	was published
gynradd (< cynradd)	primary
newidwyd (< newdi = to change)	was changed
pos, -au (m)	puzzle
portread, -au (m)	portrayal
sefydlwyd (< sefydlu = to establish)	was established

Which magazines are likely to appeal to the following readers:

- (1) Dysgwyr yn eu harddegau.
Teenage learners.

- (2) Dysgwyr o bob oedran.
Learners of all ages.

- (3) Pobl sydd yn hoffi darllen erthyglau dadleuol.
People who like reading controversial articles

- (4) Cymry lleol a'r rhai sy'n dysgu Cymraeg.
Local Welsh people and learners.

- (5) Plant bach ysgol gynradd.
Primary school children.

- (6) Meddygon sydd yn hoffi trafod materion clinigol yn Gymraeg
Doctors who want to discuss clinical topics in Welsh.

Atebion

- (1) Iaw. (2) Lingo Newydd. (3) Golwg. (4) Yr Angor. (5) Cip
(6) Cennad.

Grammar

There are a number of very troublesome little words in Welsh, which are needed to write a coherent sentence. One of these is "yn", which as well as meaning "in" has to be inserted in a sentence where there is no apparent equivalent in English.

It has three functions:

(i) to introduce the verb in a sentence beginning with "mae" or "roedd" e.g. *Mae'r trê'n yn gadael am naw.* = "The train leaves at nine." Note that there is no mutation after yn when it is followed by a verb.

(ii) to introduce an adjective or noun in a sentence beginning with "mae" or "roedd" e.g. *Mae'r tŷ yn fawr.* = "The house is big." *Mae Mari yn feddyg.* = "Mari is a doctor." In this case yn must be followed by a soft mutation.

(iii) to form an adverb *Mae'r aderyn yn canu yn felys.* = "The bird is singing sweetly". Here yn is the equivalent of the English "-ly". Again a soft mutation is needed.

Read the passage below about Urdd Gobaith Cymru or simply Yr Urdd, which means literally the Welsh League of Hope but is usually translated as the Welsh League of Youth, and insert yn in the gaps, making the appropriate mutation if it is needed.

Mae'r Urdd ____ mudiad⁽ⁱ⁾ ieuencid cenedlaethol gyda mwy na 50,000 o aelodau. Mae ____ trefnu⁽ⁱⁱ⁾ pob math o weithgareddau ar gyfer yr aelodau: canu, llefaru, ysgrifennu, dawnsio, chwaraeon, gan arwain at yr Eisteddfod flynyddol, sydd ____ parhau⁽ⁱⁱⁱ⁾ am wythnos ac ____ denu^(iv) miloedd o ymwelwyr. Mae gan yr Urdd hefyd bedwar gweryll: Llangrannog, Glanllyn, Caerdydd a Phentre Ifan, lle mae pobl ifanc ____ medru^(v) aros i sgwrsio ____ Cymraeg^(vi) a chymryd rhan mewn nifer o weithgareddau. Mae pawb ____ mwynhau^(vii) eu hunain ____ fawr.^(viii)

Geirfa

aelod, -au (m)	member
denu	to attract
gweryll (m)	camp, residential centre
llefaru	to recite
parhau	to last

Atebion

- (i) yn fudiad; (ii) yn trefnu; (iii) yn parhau; (iv) yn denu; (v) yn medru; (vi) yn Gymraeg; (vii) yn mwynhau; (viii) yn fawr.



Newyddion Cymry Manceinion yn Oaker Avenue

COLLEDION

Gyda thristwch y derbyniwyd y newydd am farwolaeth dau o'n cyn-weinidogion: y Parch H Gwynfa Roberts a'r Parch W. R. Williams, Felinheli. Bu'r Parch H. Gwynfa Roberts yn weinidog ar nifer o gapeli yn Henaduriaeth Manceinion yn y 70au. Mae'r atgofion amdano yn llw, fel bugail gofalus a charedig heb sôn am yr hwyl a gawsom fel actorion yn ein cwmni drama! Gwelsom ei golli'n fawr pan aeth yn ôl i Gymru i fod yn weinidog yn ardal Caernarfon. Daeth y newydd inni am farwolaeth y Parch W. R. gyda syndod. Ar ôl gwaeledd cymharol fyr, daeth yr alwad i fynd at ei wobwr. Fe gofiwn amdano fel cymeriad hoffus, caredig, bob amser yn barod ei gymwynas. Yntau hefyd wedi cymryd rhan yn ein dramâu a chawsom lawer orig ddifyr yn ei gwmini. Rydym yn meddwl llawer am y ddau deulu yn eu galar.

Hefyd fe estynnwn ein cydymdeimlad i Mrs Joan Davies a'r teulu ar golli ei gŵr Mr William Davies. Bu'r ddau yn aelodau ffyddlon yng nghapel Cheetham Hill ac wedi hynny yng nghapel Noddfa Oaker Avenue. Roedd William yn gymeriad hoffus, dewr, parod ei wên bob amser. Bydd colled fawr ar ei ôl. Aeth cynrychiolaeth o'n capeli i dalu'r deyrnged olaf i'r tri ohonynt i Lanrug. Amlwch ac i'r Amlogfa yn Blackley. Cof da amdanynt.

CYF ARFOD PREGETHU

'Balch oeddym o groesawu y Parch John Owen Rhuthun i'n cyfarfod pregethu blynyddol yn Noddfa Oaker Avenue. Mae John wedi bod yn ffrind da inni dros y blynyddoedd yn y capel ac yng Nghymdeithas Cymry Manceinion. Cawsom ddwy bregeth rymus ganddo 'Chwi yw halen y ddaear' oedd y testun



Carys Davies yn annerch

yn y prynhawn ac yn y min-nos ar 'groesi ffiniau' (Ioan 4:4) y ddwy bregeth yn heriol a diddorol. Cawsom de blasus rhwng y ddau gyfarfod ac amser i sgwrsio a chymdeithasu. Diolch am ddod atom yr holl ffordd o Gymru John.

SASIWN GENHADOL MANCEINION

Brynhawn Sadwm Hydref 1af, croesawyd Mrs Carys Davies, Cyd-lynydd Cynllun Dorcas i'n plith. Gwerthfawrogyd y ffaith iddi ddod atom yr holl ffordd o Langefni. Cymerwyd rhannau arweiniol y gwasanaeth gan aelodau Noddfa Oaker Avenue. 'Caru nid ar air yn unig' oedd thema ei hanerchiad a dyna fwriad y Cynllun: i Estyn allan at y Gymuned ac at y rhai llai breintiedig yn ein byd ni heddiw. Mae grantiau ariannol yn cael eu rhoi i 'Cornerstone', 'Reaching

Romania', 'Lesotho', Dolen Cymru a 'Cynllun Pontio'. 'Canys y mae cariad Crist yn ein cymell ni ...'. Dylem gadw hyn mewn cof yn ein holl weithgareddau. Treuliyd prynhawn hyfryd yng nghwmni Carys a diolchwn iddi am ddod atom.

PEN-BLWYDD ARBENNIG

Brynhawn Sul, Hydref 16eg, cawsom de parti hwyliog ar ôl y gwasanaeth i ddatlu penblwydd Mrs Lois Murphy, Cheadle Hulme, blaenor hynaf Capel Noddfa. Serch gwth o oedran, mae Lois yn dal i ddod i bob gwasanaeth a chyfarfod yn y capel ac yn cymeryd rhan flaen-llaw yng ngweithgareddau capel Oaker Avenue. Rydym yn edmygu ac yn gwerthfawrogi'n fawr ei chyfraniad i'r Achos Cymraeg yn y ddinas a hynny dros flynyddoedd maith. Hyfryd oedd cael canu 'Penblwydd hapus' iddi dros gwpaned o de a chacen pen-blwydd flasus. Da iawn chi, daliwch i'n cyfarwyddo.

AELODAU A CHYFEILLION SY'N GAETH I'W CARTREFI

Anfonwn ein cofion at Cliff ac Edith, Ron a Ken, Gwen Jones, Gwyneth Clement, Rex Harries ac eraill sydd yn methu bod yn ein plith oherwydd gwaeledd. Da oedd gweld Gwenda Watson yn bresennol yn y cyfarfod pregethu. Cafodd Gwenda lawdriniaeth feddygol yn ddiweddar a balch iawn oeddem o'i chael yn ôl gyda ni.

CYMDEITHAS CYMRY MANCEINION

Ein darlithydd gwadd i Gymdeithas Cymry Manceinion i agor y Gymdeithas fis Hydref eleni oedd yr Athro Hywel Wyn Owen, Llandegfan, ac un o blant Glannau Mersi.

Rhamant Geiriau (ac yn arbennig enwau llefydd) oedd testun y sgwrs, neu swyn geiriau a'r stori tu ôl i'r enw. Dyma feistr yn y grefft o olrhain tarddiad geiriau led-led Cymru ac fe aeth awr heibio yn gyflym iawn o dan gyfaredde ei ddawn i egluro ystyr enwau trefi a phentrefi. Da oedd gweld cymaint wedi troi i mewn i'n cyfarfod cyntaf a mawr oedd y sgwrsio dros gwpaned o de wedi'r ddarlith!

Ar nodyn llai hapus, gwelsom golli aelod ffyddlon o'r Gymdeithas ddechrau mis Hydref. Roedd David Jones yn hannu o'r Tymbl ac yn Gymro i'r carn. Byddai wrth ei fodd yn sgwrsio ar ôl y cyfarfod a'i lais tenor hyfryd i'w glywed yn glir pan fyddem yn canu 'Hen Wlad fy Nhadau.' Fe fydd chwith ar ei ôl ac mae ein cydymdeimlad yn mynd at Eluned ei wraig a'r teulu.





UNDEB GORAWL CYMRY LERPWL YN COFIO NANSI PUGH



Y Côr yn ei ysblander

Cynhaliwyd cyngerdd carolau Corawl Cymry Lerpwl yn Neuadd y Philharmonig ar Ragfyr 11eg. Louise 'Breakfast Time' Minchin oedd y cyflwynydd ac 'roedd Band Arian Llaneurgain yno unwaith eto o dan eu arweinydd newydd Paul Hughes. Clywsom amrywiaeth o gerddoriaeth Nadoligaidd yn cynnwys gwaith gan Holst, Rutter ac eraill. Uchafbwynt y cyngerdd oedd clywed y darn a gomisiynwyd gan yr Undeb Gorawl er cof am ffyddlondeb a haelioni y ddiweddar Miss Nansi Pugh, Aigburth.

Gofynnwyd i Michael D. Williams y cyfansoddwr i gyfansoddi y darn a chawsom ddarlun o 'Nadolig yng Nghymru / Christmas in Wales' ganddo. Byddai Nansi, hanesydd y Côr, yn falch o glywed mai Margaret Anwyl Williams, un o Gymry Lerpwl, oedd yr unawdydd i'r hwiangerdd 'Suo Gân' ac roedd Rhiananon Liddell wedi cyfieithu darn o'r gwaith i'r Gymraeg a sgrifennu darn diddorol am y comisiwn. Cawn glywed y gerddoriaeth yma eto yn y dyfodol.



Gwenfyl Bain, Nerys V. Jones a Louie Jones yn mwynhau Cyngerdd LWCU



Keith Orell, Louise Minchin a Paul Hughes

Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Llauer o ddiolch am haelioni i'r papur bro hwn, papur unigryw iawn yn hanes Newyddiaduriaeth Cymraeg 2017. Daliwch i'w gynnal trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/ Liverpool L19 4UA, a chaiff eich cyfraniad ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn rhifyn nesaf *Yr Angor*.
- **Pris Yr Angor** yw £11.00 trwy'r post bob mis o Mehefin ymlaen. Anfoner eich sicc i Bwyllgor *Yr Angor*. Hysbyseb – £60 y tudalen; £30 hanner tudalen.
- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**
 - i) **Rhifyn Mawrth 2017** – erbyn pñawn Mercher, 1 Chwefror, 2017, – neu ar y we i benatgarthdrive@talktalk.net neu ben@garthdrive.fsnet.co.uk
 - ii) **Rhifyn Ebrill 2017** erbyn bore Mercher, 1 Mawrth, 2017 (Dydd Gŵyl Dewi) – lluniau, adroddiadau, llythyron, etc.
 - iii) **Rhifyn Mai 2017** – erbyn bore Sadwrn, 1 Ebrill i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i Llanuwchllyn am 10.30 o'r gloch y bore hwnnw.
- **Cofier y wefan** – Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno bob mis) a Cymry-Lerpwl.co.uk





Lluniau o Gymanfa Ganu Glannau Merswy 30 Hydref 2016 yng Nghapel Bethel, Lerpwl.

Y Capel yn llawn.

Canu da. Arweinydd o'r radd flaenaf.

*Isod: Gweithwyr y Gymanfa –
Yn eistedd: Dr. D. Ben Rees,
Mr. Ted Clement Evans. Ar eu
traed: Margaret Anwyl
Williams (organydd), Wena
Evans (Llywydd), Trystan Lewis
(arweinydd digyffelyb),
Rhiannon Liddell (Ysg. y
Gymanfa), John Medwyn Jones
(noddwr) ac R. Ifor Griffith
(arweinydd y rihyrsals)*



Trystan Lewis, Deganwy



Wena Evans, Llywydd y Gymanfa



John Medwyn Jones a Norma Owen ar sgwrs

PEARSON COLLINSON

TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

Prif Swyddfa

87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

Swyddfa arall

255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair
personol yna canolbwyntiwrch ar 0151 722 1514



Cyflwyno rhai o Gymry Lerpwl a'r Cyffiniau 2016



Y diweddar Glenys Jones, Old Swan. Genedigol o Lerpwl. Un o gefnogwyr pennaf Capel Bethania a hefyd Yr Angor.



Rhes gefn: Carys Williams o Gaergybi a'i chyfnither Sara Williams, cynnyrch bywyd Cymraeg y ddinas. Blaen: Mared, Ela a Catrin (Myfyrwyr ym Mhrifysgol Lerpwl)

Mair a David John Williams, Gateacre. Cynheiliad ein traddodiadau.



Ar y chwith Miss Hilda Lloyd, Rainhill a'i chwaer Ann o Llanwrin. Y ddwy wedi ei geni a'u magu yn Lerpwl

CRONFA ARBENNIG HEDD WYN Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi Cronfa Gŵyl/Eisteddfod y Gadair Ddu Penbedw a'r bardd Hedd Wyn o Drawsfynydd (1917-2017)

Rhestr 1 (hyd 31 Hydref 2016) y swm o £715.00

Rhestr 2 (Chwefror 2017) – (hyd 31 Rhagfyr 2016)

- | | |
|---|----------------|
| 1) Mrs Marged Jones, Maes Ffynnon, Rhuthun L15..... | £10.00 |
| 2) Mr. Eryl Wynne Jones, Woolton | £50.00 |
| 3) Mrs Gwen Jones, Allerton, Lerpwl | £20.00 |
| 4) Mrs Undeg Cole, Abertawe | £10.00 |
| 5) Cystadleuaeth Golf Cymry Lerpwl
(trwy law Dr. John G. Williams) | £450.00 |
| Cyfanswm | £540.00 |

Rhestr 1.....£715.00

Rhestr 2.....£540.00

.....£1,255.00

Cychwyn da ond mae angen o leiaf £5,000 arnom i dalu am drwsio y Gofeb ym Mharc Penbedw a threfnu'r Wyl ar gyfer Sadwrn, Medi 9 a Sul, Medi 10, 2017. Yr ydym ar hyn o bryd yn brin o £3,750, ond mae gennym wyth mis i gasglu ynghyd yr adnoddau. Ceir y drydedd restr yn rhifyn nesaf o'r *Angor* a dylid anfon y cyfraniadau ariannol i'r Cadeirydd, Dr. D. Ben Rees, 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl/Liverpool L18 6HW mor fuan ag y bo modd. Y sicciau i'w llenwi i *Gymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi* neu *Merseyside Welsh Heritage Society*. Diolch am eich cefnogaeth ardderchog.

Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi
Merseyside Welsh Heritage Society

CYNGERDD / CONCERT **Côr Rygbi Gogledd Cymru** **(North Wales Rugby Choir)**

Soloists: Dylan Cernyw, Gwydion Rhys
Ionawr/January 28
am/at 7.30pm

Elm Hall Drive Methodist Church

Toynnau £10 nawr ar werth / Tickets £10 now on sale.

Y mae y Cyngerdd hwn yn rhan o ddathliadau Gŵyl Eisteddfod Hedd Wyn, a gellir archebu'r tocynnau drwy ben@garthdrive.fsnet.co.uk neu benatgarthdrive@talktalk.net
Mae'r tocynnau yn £10 ac am ddim i blant dan 12.

The tickets are £10 and free for children under 12.
We look forward to welcoming you!

Un o Ddarllenwyr yr Angor -**NEIL WYN JONES, WEST KIRBY**

Cefais fy ngeni yn Wallasey ym 1961 a'm bedyddio yng nghapel Liscard Road. Er nad ydw i'n cofio, mi oeddwn i a'm chwaer Lynne yn medru'r Gymraeg yn blant ifanc ac mae gennyf atgofion brith o gystadlu yn Eisteddfod Wallasey yng Nghapel Rake Lane. Cymraes o Wallasey ydy mam, a ganwyd fy nhad yn Wrecsam. Cafodd ei fagu yng Nghroesoswallt ac wedyn Dyffryn Clwyd, ond mam oedd yr un a fagwyd i fod yn rhugl yn y Gymraeg.

Erbyn i Lynne ddechrau'r ysgol, roedd hi wedi casglu nad oedd y Gymraeg yn iaith hanfodol i blentyn yn Wallasey. Dechreuodd gyfieithu i'w brawd bach, ac ateb mam yn Saesneg. Collon ni ein Cymraeg maes o law felly, ond nid y gallu ynganu enwau llefydd yn weddol gywir, diolch i ymdrechion dad a mam!

Rwy'n cofio fel oedolyn ifanc penderfynu ceisio ail-afael yn yr iaith, wrth imi sylweddoloddi mod i wedi colli rhywbeth o bwys. Ymdrechais i'w wneud gan ddefnyddio llyfrau Heini Gruffudd a gwrando ar raglen 'Catchphrase', ond gyda phrysurddeb bywyd a blaenoriaethau eraill, methiant oedd fy ymdrechion.

Priododd Jill a finnau yn 1986, a ganwyd Sam y flwyddyn wedyn. Dioddefodd ein mab annwyl trawma genedigaeath, digwyddiad byddai'n newid popeth. Mi gollon ni Sam yn dair oed, gan adael bwlch yn ein bywydau na chaiff ei lenwi. Deng mlynedd wedi genedigaeath Sam, cawsom ein bendithio gyda merch Miriam, sydd erbyn hyn yn astudio Seicoleg yn Sheffield. Rwy'n cofio Miriam yn cychwyn yn yr ysgol yn ôl ym 2001, cyfnod a gododd awch dysgu



Neil Wyn Jones gwneuthurwr Cadair Eisteddfod yr Urdd Sir y Fflint

(Llun gan Y Daily Post)

ynddo i mae'n debyg. Penderfynais fynd ati o ddifri i ddysgu'r Gymraeg.

Darganfyddais cwrs ar-lein a dechrau ei ddilyn tra boddi fy hun yn feunyddiol yn nhonfeddi Radio Cymru. Astudiais felly am ddwy flynedd, ac yna clywed am sesiwn sgwrsio yn Yr Wyddgrug o dan ofal Menter Iaith. Roedd y cyfle ymarfer gyda phobl 'go-iawn' yn wych, yr union beth oedd angen arnaf. Yn 2009, a thrwy gyfaill ym Menter Iaith, cefais wahoddiad i gymryd dosbarth Cymraeg yn Bebington. Doedd gen i ddim syniad beth i'w disgwyl ond cytunais. Cwrddais â chriw clên a chefnogol o ddysgwyr, a dechreuais eu harwain trwy 'Cwrs Mynediad'. Daethon nhw yn ôl yr

wythnos wedyn diolch byth!

Cefais waith fel tiwtor i Brifysgol Bangor yn 2012, a chyfle gwneud cymhwyster dysgu gyda deuddeg cyddiwtor, gan gynnwys Bethan Gwanas ac Eilir Jones, profiad amhrisiadwy! Eleni rwy'n dysgu pum dosbarth yng ngogledd ddwyrain Cymru ac un yng Nghilgwi. Mae hi wedi bod yn flwyddyn o newid mawr gydag ail-strwythuro a chyrsgiau newydd ar y gweill, gyda'r bwriad o greu rhagor o siaradwyr rhugl.

Daeth gwahoddiad annisgwyl eleni trwy gyfaill ym Menter Iaith. Saer yr wyf wrth fy ngalwedigaeth, a chefais yr anrhydedd o greu cadair Eisteddfod yr Urdd Sir y Fflint. Hon oedd y gadair eisteddfodol gyntaf i mi wneud ers i daid fy noddi i greu cadair 'Eisteddfod Glannau Mersi 1985'!

Wrth gloi, hoffwn ddiolch yn fawr i bawb sydd wedi bod mor gefnogol i ni ddysgwyr, mae eich cymorth yn hanfodol.

Neil Wyn Jones, Rhagfyr 2016

NOSON GWYLWYR S4C LERPWL -**Nos Fercher, 15fed Chwefror 2017**

Annwyl Ben,

Diolch yn fawr iawn i chi am y sgwrs ac am eich cyngor ynglŷn â cynnal **Noson Gwylwyr S4C** yn Lerpwl.

Y dyddiad sy' wedi ei bennu erbyn hyn yw Nos Fercher, 15fed Chwefror.

Bydd y noson i'w chynnal yn y Victoria Gallery and Museum - <http://vgm.liverpool.ac.uk/plan-your-visit/how-to-find-us/>. Bydd lluniaeth ysgafn wrth gyrraedd a byddwn yn anelu at gychwyn marciau 7pm.

Noson anffurfiol iawn fydd hon lle bydd cyfle i bobl fynegi eu barn ar raglenni a gwasanaethau'r sianel mewn grwpiau bychain. Huw Jones - Cadeirydd S4C ac Ian Jones y Prifweithredwr fydd yn arwain y noson.

Ni'n anelu at ddenu tua 60 o bobl i'r digwyddiad ac yn awyddus i bawb gofrestru os hoffent ddod er mwyn i ni allu paratoi ar gyfer y noson.

Gellir cofrestru trwy fy ffonio i ar 01352 754212 neu ebostio nia@momentwm.com gan nodi enw, cyfeiriad a rhif ffôn.

Nia Lynn Jones

Ar ran

Noson Gwylwyr S4C

01352 754212

07790591036

nialynn.jones@momentwm.com

Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.

Cysodwyd ac argraffwyd gan Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484



**Dafydd, Harri a Noa
a gafodd eu swyno ar Wyl y Plant**

BORE NADOLIG YM METHEL, LERPWL



**Uchod: Laura Roberts (Aigburth)
ac Elin Roberts (Allerton).**

**Chwith: Ann Roberts, Sian Barker
a Nia o Llandoged yn sgwrsio**

CYFARCH SYR BRYN TERFEL

Yn Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd 2017 derbyniodd y canwr enwog Bryn Terfel anrhydedd o gael ei ddyrchafu yn farchog.

Cafodd Dafydd Rees, aelod yn eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl gyfle i gyfarch y gŵr o Bantglas yn Arfon ar ddiwedd Cyngerdd yn Llundain ac yn wir ei atgoffa fod y ddau ohonynt wedi cystadu yn erbyn ei gilydd yn Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Lliw! Y mae'r ddau yn gyfoedion a dymunir yn dda i Syr Bryn Terfel ac i Dafydd Llewelyn Rees i'r dyfodol.

Dafydd Rees yn cyfarch Syr Bryn Terfel

